

**Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Mehefin
19deg 2019 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 19th June
2019 at 7.30pm**

1. Presennol/Present - Cyngorwyr Barbara Williams (Cadeirydd/Chairperson), Myrddin Roberts, Rhian Hughes, Maldwyn Williams, Geraint Parry (Clerc/Clerk) a Lewis Davies.

2. Ymddiheuriadau/Apologies - Cyng. Alun Roberts, Carwyn Jones a Hanna Elin Baguley

3. Datgan Ddidderdeb/Declaration of interest

3.1 Cyng. R Hughes yn datgan diddordeb sydd ddim yn rhagfarn ar eitem 8 / *Clr. R Hughes declared an interest on item 8 that is not prejudicial.*

4. Cofnodion/Minutes - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 fed o Mai fel rhai cywir gan Rhian Hughes, eiliwyd gan Myrddin Roberts / *Minutes of the previous meeting held on 15th May were accepted as accurate by Rhian Hughes, seconded by Myrddin Roberts.*

Nodyn / Note – cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghapel Peniel / *meeting was held at Peniel Chapel*
Nodyn / Note – roedd Cyng. Hanna Elin Baguley ar gwrs hyfforddiant / *Clr. Hanna Elin Baguley was on a training course*

Nodyn / Note - Mr. Mike Walczak yn bresennol / *was present*

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

5.1 Chalet - adroddodd Cyng. L Davies y bu llawer o newidiadau yn yr Adran Gorfodaeth a gobeithir y bydd cynnydd yn y staffio / *Clr. L Davies reported that there has been many changes in the Enforcement Department and it is hoped that there will be an increase in staffing.*

5.2 Ysgol Biwmares - dywedodd Cyng. L Davies bod Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu diddymu penderfyniad blaenorol ynglŷn â dyfodol Ysgol Llangoed a Biwmares ac yn ardaloedd Llangedfni. Maent yn gofyn i'r swyddogion edrych yn newydd ar y gwahanol faterion mewn perthynas â moderneiddio Ysgolion. Mae ansicrwydd bellach yn amgylchu'r Cynllun Gofal Ychwanegol a dyfodol Chartref Preswyl Haulfre / *Beaumaris School - Clr. L Davies that the Executive Committee have decided to rescind the previous decision with regard to the future of education at Llangoed and Beaumaris School and in the Llangedfni area. They are to ask Officers to look afresh at the various issues in relation to schools modernisation requirement. Uncertainty now surrounds the Extra Care Scheme and the future of Haulfre Residential Home*

5.3 Lôn Hafoty - penderfynwyd yn unfrydol ofyn i'r Pennaeth Priffyrdd fynychu ein cyfarfod nesaf er mwyn trafod amodau'r ffyrdd yn Hafoty, y ffordd ganol i Llangoed, ger Tŷ Du a'r lôn i lawr i'r traeth / *it was unanimously decided to ask the Head of Highways to attend our next meeting in order to discuss the conditions of the roads at Hafoty, the middle road to Llangoed, by Tŷ Du and the lane down to the beach*

5.4 Yn dilyn y cyfarfod safle gyda'r asiant ar 18/05 yn Tyn Llain, awgrymwyd gosod y llinell uwchben o dan y ddaear a chadw'r polyn H ar gornel y plot, tuag at Tyn y Mynydd. Cymerodd y Cyngorwyr y cyfle i herio'r swm o £11k a godwyd am atgyweirio'r llinell bŵer i'r Hen Ysgol / *Following the site meeting with the agent on 18/05 at Tyn Llain, it was suggested to place the overhead line underground and keep the H pole in place at the corner of the plot, towards Tyn y Mynydd. Councillors took the opportunity to challenge the sum of £11k charged for the repair to the power line to the Old School*

5.5 Adroddiad Blynyddol IRPW - taliad i aelodau, atgofiodd y Clerc y Cyngorwyr o'r angen i benderfynu derbyn neu wrthod y taliad / *Annual IRPW Report - payment to Councillors, Clerk reminded Councillors of the need to decide to accept or reject the payment.*

5.6 Cafwyd trafodaeth bellach er mwyn llenwi'r 3 sedd wag yn ward Llanddona. Penderfynwyd unrhyw berson oedd yn dangos diddordeb i anfon llythyr at y Clerc / *Further discussion took place in order to fill the vacant 3 seats in the Llanddona ward. It was decided for any person showing interest to send a letter to the Clerk.*

5.7 Mae holl gofnodion blaenorol o ein cyfarfodydd wedi'u cymeradwyo a'u gosod ar ein gwefan / *All the previous minutes of our meetings have been approved and placed on our website.*

6. Adroddiad gan y Cyngorwr Sir /Report by the County Councillor

6.1 Yn cefnogi'r cais am 10 Cartrefi Fforddiadwy yn Llangoed. Roedd llawer wedi mynychu digwyddiad diwrnod agored diweddar, gyda 43 o bobl yn dangos diddordeb. Dywedodd Cyng. M

Williams fod gan y Cyngor Sir dir yn Llanddona. Mynegodd Cyng. M Roberts bryder y bydd y cais hwn yn anghyfleus i drigolion presennol yn Tawelfan. / *Supporting the application for 10 Affordable Homes in Llangoed. Many had attended the recent open day event, with 43 people showing an interest. Cllr. M Williams stated that the County Council has land in Llanddona. Cllr. M Roberts raised concern that this application will inconvenience the current residents of Tawelfan.*

7. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications

- 7.1 HHP/2019/38 - Cherry Tree Cottage, Llanddona - cais llawn ar ehangu'r modurdy - sicrhau bod rheoliadau adeiladu yn cael ei ddilyn / *Full application for the extension to the garage - ensure that building regulations are observed.*
- 7.2 VAR/2019/37 - Bod Ola, Llanddona - Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02)(Cynlluniau a Gymeradwywyd) o ganiatâd cynllunio rhif 22C229 (Dymchwel rhan o'r anedd ynghyd ag addasu ac ehangu) fel y gellir gwneud newidiadau i ddyluniad - dim gwrthwynebiad, ac i atgoffa bod mewn ardal sydd â thuedd i dirlithriad / *Application under Section 73 for the variation of condition (02)(Approved plans) of planning permission reference 22C229 (Part demolition of dwelling together with alterations and extensions) so as to allow amendments to the design - no objection, to remind this is in an area prone to landslide.*

8. Hen Ysgol / Old School

- 8.1 Cyng. R Hughes - wedi cael cyfnod prysur gyda'r holl wirfoddolwyr yn gweithio'n galed iawn. / *Cllr. R Hughes - had a busy period with all the volunteers working very hard.*
- 8.2 Bydd gwaith peintio yn dechrau wythnos nesaf / *Painting is to start next week*
- 8.3 Trefnwyd Diwrnod Agored ar y 13/07, digwyddiad i ddechrau am 12:30 gyda band Biwmares yn cymryd rhan / *Open day has been arranged on the 13/07, event to start on 12:30 with Beaumaris Band taking part.*
- 8.4 Dal i ddisgwyl am yr arwyddion gael eu codi / *Still awaiting for the signs to be erected*
- 8.5 Yn dilyn trafodaethau gyda'r contractwr, bydd llawr newydd yn cael ei osod yn dilyn y difrod a achoswyd yn ystod y gwaith adeiladu diweddar / *Following negotiations with the contractor, a new floor is to be fitted following the damaged caused during the recent building works.*
- 8.6 Mae Playsafety wedi cynnal archwiliad ar yr eitemau chwarae, a arweiniodd at sgôr risg isel yn gyffredinol gyda argymhelliad bod angen peintio'r holl offerion / *Playsafety have carried out an inspection on the play items, which resulted with an overall low risk score with a recommendation that all the equipment require painting.*

9. Tir Comin/Common Land

- 9.1 Cais am hawddfaint Brookfield – Y Clerc i hysbysebu cais hawddfaint / *Application for easement – Clerk to advertise the easement request*
- 9.2 Ffos ar dir comin y Rhos – mae'r Clerc wedi ysgrifennu at y prif bencadlys yng Nghaerdydd yn y gobaith o gael ymateb. / *Ditch created on the common land - Clerk has written to the main headquarters in Cardiff in the hope of getting a response.*
- 9.3 Hawddfaint ar gyfer peipen ddŵr ar draws tir comin i Tyddyn Ben - Mae gan yr ardal hon statws SSSI ac o bosib angen caniatâd gan CNC? / *Easement for Water Pipe across common land to Tyddyn Ben - This area has a SSSI status and possibly requires permission from NRW?*
- 9.4 Porth y Dref – bellach wedi ei gofrestru i'r Cyngor Cymuned / *has now been registered to the Community Council*
- 9.5 Map o dir comin - Clerc i holi ymhellach a allwn ei gosod ar ein gwefan / *Map of Common land - Clerk to further inquire if we can place it on our website*

10. Cyfrifon / Accounts

- 10.1 Anfonebau i'w hystyried / *Invoices to be considered:-*
- Awdit mewnol 2018/19 / *Internal Audit 2018/19 - £75.00*
 - BHIB Yswiriant 2019/20 / *Insurance 2019/20 - £229.58*
 - Playsafety – arolwg maes chwarae / *Playground Inspection - £82.20*
 - Cyflog / *Wages - £396.63*
 - HMRC - *£90.00*
 - Dwr Cymru / *Welsh Water - £18.28*
- 10.2 **Incwm / Income**
Precept - *£2,078.34*

11. Awdit / Audit 2018/19

- 11.1 Eglurodd y Clerc fod ein harchwilydd mewnol arferol wedi gwella o salwch ac wedi gwneud y gwaith./ *Clerk explained that our usual Internal auditor had recovered from illness and undertook the work.*
- 11.2 Trafodwyd y ffurflen flynyddol lle eglurodd y Clerc y gwaith a wnaed gan ein Harchwilydd Mewnol a'r pwyntiau a godwyd. Trafodwyd a chymeradwywyd Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol. Hefyd trafodwyd Rhan 1 o'r ffurflen a chytunodd yr aelodau ar y system rheolaeth fewnol yn ddigonol. Penderfynwyd cymeradwyo'r ffurflen, llofnodwyd y ffurflen gan y Cadeirydd. / *Annual return was discussed where the Clerk explained the work carried out by our Internal Auditor and the points raised. Standing Orders and Financial Regulations were discussed and approved. Part 1 of the form was discussed and members agreed the system of internal control is adequate. It was resolved to approve the Annual Return, form was signed by the Chairperson.*

12. Adolygiad Pwyllgor Safonau / Review by Standard Committee

Adolygiad Pwyllgor Safonau - trafododd y Cynghorwyr yr adroddiad, ni chodwyd unrhyw ymatebion, derbyniwyd yr adroddiad. / *Review by Standards Committee - Councillors discussed the report, no responses raised, report accepted.*

13. Gohebiaeth/Correspondence

- Pen Gorllewin – adeilad arfaethedig / *proposed building*

14. UFA/AOB:

- 14.1 Adroddodd Cyng. R Hughes bod Pwyllgor Sioe Merlod wedi rhannu £600 i achosion lleol / *Clr. R Hughes reported that the Pony Show Committee have shared £600 to local causes.*
- 14.2 Derbyn gwybodaeth am adeilad arfaethedig ar y cae i'r gogledd o ben Gorllewin. Bydd y tŷ yn cael ei adeiladau i'r safon passivhaus, gan ddefnyddio ychydig iawn o egni. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau / *Received information of a proposed building on the field north of Pen Gorllewin. The house will be built to the passivhaus standard, using very little energy. No objections raised.*
- 14.3 Cytunwyd yn unfrydol i ofyn i ffermwr lleol dorri'r cae chwarae / *It was unanimously agreed to ask a local farmer to cut the playing field*
- 14.4 Cyng. M Roberts wedi mynychu cyfarfod Peillio i drafod y blodau gwyn yn ein gwrychoedd ac ati. A ddylem dorri gwrychoedd ochr ein ffyrdd nawr? Ni chyflwynwyd penderfyniad / *Clr M Roberts attended a Pollinators meeting to discuss the white flowers in our hedgerows etc. Should we cut our road side hedges now? No decision was put forward.*
- 14.5 Derbyniodd Cyng. M Roberts cwyn ynglyn a chyflwr y llwybr troed ger Penhwnllys Plas / *Clr. M Roberts received a complaint regarding the condition of the footpath by Penhwnllys Plas.*
- 14.6 Pwysleisiodd Cyng. M Roberts yr angen i gyd-weithio gyda phwyllgor yr Hen Ysgol a chanolbwyntio ar geisiadau grant er mwyn gwella materion lleol / *Clr. M Roberts emphasised the need to work with the Old school committee and concentrate on grant applications in order to improve local matters*
- 14.7 Mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth am gynnydd o brosiect Cwlwm Seiriol. Penderfynwyd cael y rhaglen waith a'r costau diweddaraf / *Concern was raised regarding the lack information on progress from the Cwlwm Seiriol project. It was resolved to obtain the latest works programme and costs.*

15. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9:55 o'r gloch. Cyfarfod nesaf ar 17/07/19 am 7.30 yn yr Hen Ysgol. *There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9:55pm. Next meeting to be held on 17/07/19 at 7.30pm in the Old School.*

Llofnod y Gadeirydd

Dyddiad